**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**Dyddiad**: 1 Mawrth 2000
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Teitl:** Dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i Ben

**Cyflwyniad**
Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y trafodaethau ynghylch y broses ddirwyn i ben, ac yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr.

2. Mae hyn yn cynnwys:

- rhestr o'r prosiectau (a'r costau cysylltiedig) y bydd Cyngor Sir Caerdydd (CCC) yn etifeddu gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (CBDC). Mae'r rhain yn ymwneud â rhwymedigaethau y gwyddys amdanynt ac sy'n fesuradwy. Nid yw'n bosibl i fesur unrhyw rwymedigaethau nad ydynt wedi'u rhagweld neu nad ydynt eto'n hysbys;
- y swm/symiau a gymudwyd a roddir i CCC ar gyfer rheoli'r asedau sydd heb fod yn rhai datblygu, ynghyd â'r ymrwymiadau posibl;
- y weithdrefn gaffael a weithredwyd mewn perthynas â Thames Water; a
- llofnodi Cytundebau Adran 165.

3. Yn ôl y gofyn gosodwyd y Memoranda Cyd-Ddealltwriaeth (MOU) â Chyngor Bro Morgannwg a Chyngor Sir Caerdydd (mewn perthynas â'r asedau a'r rhwymedigaethau sydd heb fod yn rhai datblygu a swyddogaethau awdurdod yr Harbwr) yn Llyfrgell y Cynulliad.

4. Bydd nifer o brosiectau na fyddant yn cael eu cwblhau gan CBDC cyn 31 Mawrth yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor drwy gyfrwng y Memoranda hyn. Rhestrir y prosiectau anorffenedig yn Atodiad 1; ond ni chynhwysir y gofyniad i osod system ocsigenieddio i gynnal dwr y Bae, a fydd yn cael ei gyllido o'r ddarpariaeth flynyddol ar wahân o £12 miliwn ar gyfer gweithredu cyfrifoldebau'r Morglawdd, y Bae ac Awdurdod yr Harbwr.

**Cyllid Olynol i Gyngor Sir Caerdydd ar gyfer Asedau a Rhwymedigaethau sydd heb fod yn rhai Datblygu**
5. O dan yr MOU cyntaf, yr oedd Cyngor Sir Caerdydd i dderbyn hyd at £13 miliwn (fel a restrir yn Atodiad 1), sy'n cynnwys:

- swm a gymudwyd o oddeutu £1.9 miliwn ar gyfer talu costau'r asedau a'r rhwymedigaethau sydd heb fod yn rhai datblygu, y rhan fwyaf yn cynnwys buddiannau

cyhoeddus, sy'n rhan o gyfrifoldeb y Cyngor ac nad oes iddynt werth masnachol. Bellach cafwyd **setliad o £5.381 miliwn.** Y prif elfennau yw mannau agored i'r cyhoedd, mabwysiadu priffyrdd a'r seilwaith draenio, a chynnal-a-chadw a monitro Tomen Malurion Rwbel Tremorfa a Thomen Ferry Road (gan gynnwys casglu a thrin trwytholchion). Mae'r prif eiddo i'w trosglwyddo yn cynnwys Parc Hamadryad, Blaen-draeth Tremorfa, Pengam Green, Ferry Road (Grangemoor Park), tri darn o dir ar wahân yn Ocean Park a thir PDR dros ben. Mae'r swm wedi'i gyfrifo ar sail disgownt dros gyfnod o 15 mlynedd;

- hyd at £5m yn 2000-01 ar gyfer prosiectau na chawsant eu cwblhau cyn i'r Gorfforaeth gael ei dirwyn i ben (gweler Atodiad1). Mae'r Gorfforaeth eisoes wedi cyllido rhai o'r prosiectau hyn yn rhannol. Yn ogystal, bydd dau brosiect arall yn cael eu cwblhau gan CCC, ac amcangyfrifiwyd y bydd gweddill y gost yn £42,000 (cynlluniau amgáu a thirlunio Parc Grangemoor). Bydd y Cyngor hefyd yn derbyn cyfraniad o £137,000 tuag at wella'r camerâu CCTV yn Sgwâr Mount Stuart, a bydd unrhyw weddill yn cael ei dalu gan y Cyngor o'i adnoddau ei hun. Felly, ar hyn o bryd amcangyfrifir mai tua £4.5 miliwn fydd yr ymrwymiad ariannol ar gyfer y Cynulliad;
- hyd at £6.1 miliwn o gyllid trosiannol dros y tair blynedd ariannol nesaf i gefnogi mentrau CBDB ar gyfer hyfforddiant, cyflogaeth a'r gymuned leol a gweithgareddau adfywio eraill yn yr ardal. Bydd hwn yn cael ei leihau gan y gost o £5.95 miliwn i'r Cyngor sy'n deillio o brynu tir gan y Gorfforaeth ar gyfer datblygiad y Pentref Chwaraeon ar Benrhyn Ferry Road. Bydd hyn yn lleihau ymrwymiad ariannol parhaus y Cynulliad i £150,000.
- Amcangyfrifir bod y cyllid net angenrheidiol bellach tua £9.7 miliwn (gweler Atodiad 1).

**Cyllid Olynol i Gyngor Sir Caerdydd ar gyfer ei Swyddogaeth fel Awdurdod yr Harbwr a'r Asedau a'r Rhwymedigaethau cysylltiedig**

7. Bydd prif rwymedigaeth ariannol y Cynulliad yn y dyfodol yn deillio o reoli a hyrwyddo'r Morglawdd, yr Harbwr Allanol a'r Bae Mewnol i gydymffurfio â gofynion Deddf Morglawdd Bae Caerdydd, y cytundebau cyfochrog perthnasol a gofynion Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae cyfrifoldeb Awdurdod yr Harbwr yn cynnwys darparu gwasanaethau rheoli'r cyfleusterau a oedd yn destun bid gan Thames Water. Disgrifir y broses gaffael a ddilynwyd ar gyfer bid Thames Water ym mharagraffau 11 i 15 isod.

8. Disgwylir y bydd y trefniadau ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau Awdurdod yr Harbwr, sydd ar hyn o bryd yn destun trafodaeth gyda Chyngor Sir Caerdydd, yn esgor ar gost flynyddol fesuradwy o oddeutu £12 miliwn dros y pum mlynedd nesaf, a fydd yn cynnwys:

- cost cyflogi gweithwyr i reoli a chynnal-a-chadw'r Morglawdd a'r Bae;
- cynnal-a-chadw adeiladwaith a systemau gweithredu'r Morglawdd, gan gynnwys amddiffyn rhag erydu yn ystod cyfnod cronni'r dwr heli; a
- chynnal-a-chadw'r Bae gan gynnwys y rhwymedigaethau o ran ansawdd y dwr, ymyl y bae a draeniad.

9. Bydd y Cyngor/Awdurdod yr Harbwr hefyd yn gyfrifol am gwblhau prosiect y Morglawdd, gan

gynnwys setlo hawliadau sy'n gysylltiedig â chontract adeiladu Balfour Beatty Costain; carthu'r bae; cyflawni gofynion Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 o ran ansawdd y dwr; y gofynion o ran dwr daear a'r broses sychu ac unrhyw waith adferol posibl yn ystod y cyfnod o 20 mlynedd ar gyfer amddiffyn rhag difrod dwr daear. Yn ogystal, bydd CCC yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am brosiectau eraill gan gynnwys Piazza'r Basn Hirgrwn a'r cynlluniau i Amddiffyn y Doc Sych rhag Llifogydd. Amcangyfrifir mai'r gost net i'r Gorfforaeth o gwblhau'r prosiectau hyn (ac eithrio'r hawliadau contract) yw tua £9 miliwn. Gallai rhwymedigaeth y Cynulliad i dalu am setlo'r hawliadau contract ychwanegu'n sylweddol at y ffigur hwn a bydd y Cynulliad yn cael ei hysbysu ynglyn â hyn cyn gynted â bo modd; ond ni ellir cynnig amcangyfrifon ar hyn o bryd gan y byddai'n niweidio canlyniad y negodiadau ar setliad yr hawliadau.

10. Yn Atodiad 1, cynhwysir dadansoddiad o gynlluniau'r Gorfforaeth fesul cynllun, sy'n cynnwys y derbyniadau disgwyliedig, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hawliadau. Yn Atodiad 2, mae amcangyfrif o'r goblygiadau ariannol mesuradwy presennol (yn seiliedig ar wybodaeth gan CBDC) ar gyfer y Cynulliad, sy'n amodol ar gytuno'n derfynol ar y cytundebau gyda'r cyrff olynol.

**Rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd ar Gaffael yn y Sector Cyhoeddus**

11. Bwriad Rheoliadau'r UE ar Gaffael yn y Sector Cyhoeddus yw sicrhau cystadleuaeth ryngwladol deg wrth gyflwyno bidiau ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith sydd uwchlaw terfynau gwerth penodedig. Mae'r holl gontractau sydd yng nghwmpas y Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn statudol a ddisgrifir yn Atodiad 3.

12. Ym mis Mai 1998, cyhoeddodd CBDB hysbyseb yn OJEC yn hysbysebu'r contract ar gyfer gwasanaethau i reoli'r Bae a'r Morglawdd ar ffurf contract gwasanaeth i'w ddyfarnu o dan y weithdrefn a drafodwyd. Yr oedd gweithredu a rheoli'r Morglawdd yn cynnwys tair elfen ar wahân; ansawdd y dwr, rheoli'r Bae, a'i ddatblygu, ei weithredu, a'i reoli at ddefnydd hamdden. Gwahoddwyd cwmnïau i fynegi diddordeb yn yr holl elfennau hyn. Derbyniwyd cyflwyniadau gan bedwar sefydliad a fynegodd ddiddordeb ym mhob agwedd o'r contract. Yn ogystal mynegodd tri chwmni ddiddordeb yn eu meysydd arbenigol eu hunain, a nodwyd hwy fel is-gontractiwyr posibl i'r prif gynigwyr (a hysbyswyd hwythau o'r arbenigwyr unigol)

13. Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynwyd bod y pedwar cwmni yn gymwys i gynnig am dendr ar gyfer yr holl agweddau ar reolaeth y Morglawdd a'r Bae. Yr oedd y dogfennau gwahodd yn cyflwyno manyleb o'r cynnyrch (gan adlewyrchu gofynion y Ddeddf a'i chytundebau cyfochrog) yr oedd yn rhaid i bob cynigydd roi pris arnynt. Derbyniwyd tendrau gan dri chwmni, ac ni chyflwynwyd tendr gan y pedwerydd cwmni. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng CBDC a'r cynigwyr i sefydlu lefel o ddealltwriaeth ynglyn â'r materion perthnasol ac i gadarnhau agweddau ariannol eu cynigion. Yn unol â rheoliadau caffael yr UE, hysbyswyd yr holl gynigwyr o'r meini prawf gwerthuso a fyddai'n cael eu defnyddio wrth werthuso'u cynigion, ac yr oeddynt yn ymwybodol y byddai'n rhaid llunio contract o'r newydd ar gyfer awdurdod olynol y porthladd ar ôl dirwyn CBDC i ben, a bod yn rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r contract hwnnw.

14. Ym mis Mawrth 1999, ar ôl asesiad ansoddol ac ariannol, dewisodd CBDC Thames Water fel y cwmni y dylid trafod y cynnig gorau a chynnig terfynol gydag ef. Gallai'r cynnig hwn gynnwys addasiadau i'r manylion perfformiad o fewn fframwaith y gwasanaethau a amlinellwyd yn hysbysiad OJEC. Hysbyswyd y cynigwyr eraill o'r penderfyniad hwn a chadwodd CBDC yr opsiwn i ail-ddechrau'r trafodaethau gyda'r cynigwyr eraill.

15. Gwnaed cais am gymeradwyaeth gan y Cynulliad ar gyfer dyfarnu'r contract i Thames Water ar 30 Medi 1999. Yn dilyn trafodaethau â Chyngor Sir Caerdydd, a fydd, fel darpar Awdurdod yr Harbwr, yn etifeddu'r cyfrifoldebau rheoli ar gyfer y contract rheoli cyfleusterau, penderfynodd Ysgrifenyddion y Cynulliad y byddai'n cynnig gwell gwerth am arian petai CCC yn ymgymryd â swyddogaethau Awdurdod yr Harbwr gan ddefnyddio arbenigedd mewnol, ac yn gosod gwaith arall allan ar gontract fel sy'n briodol. Cadarnhawyd y penderfyniad i'r Cynulliad ym mis Rhagfyr 1999.

**Llofnodi Cytundebau Adran 165.**

16. Nid yw'r Gorfforaeth eto wedi dod i benderfyniad ar y Cytundebau Adran 165 gyda'r holl gyrff olynol, ond disgwylir iddo wneud yn fuan. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad, wrth drafod â'r Gorfforaeth a phob corff olynol, i benderfynu'n derfynol ar ei asesiad o oblygiadau'r broses ddirwyn i ben ar gyllid y dyfodol; ac i gytuno ar drefniadau cyllido pob corff olynol o 1 Ebrill ymlaen, a chwblhau'r broses honno erbyn 31 Mawrth. Mae copïau o gytundebau drafft adran 165 ar gael i'w harchwilio gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau. Nid yw gwybodaeth gefndirol neilltuol sy'n ymwneud â materion personél a gwybodaeth fasnachol gyfrinachol wedi'i chynnwys yn y dogfennau. Fel a nodwyd uchod, mae'r goblygiadau ariannol presennol sy'n fesuradwy yn Atodiad 2.

Yr Adran Datblygu Rhanbarthol
Mis Chwefror 2000